

# Teithiau Ysgol - Arolwg Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

## Comisiynydd Plant Cymru

## Ebrill 2024

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Teithiau Ysgol – Arolwg ciplun o blant a phobl ifanc yng Nghymru

## Cyflwyniad

Yn ystod mis Ebrill 2024 fe wnaethon ni ddefnyddio arolwg i ofyn barn plant a phobl ifanc ar eu teithiau i'r ysgol.

Roedd yr arolwg yn rhan o gyfres barhaus o gwestiynau ar bynciau penodol rydyn ni'n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o faterion. Yr enw ar y rhain yw'r Materion Misol. Cafodd yr arolwg ei rannu'n uniongyrchol â'r holl ysgolion sydd wedi ymuno â'n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

Fel rhan o becyn yr arolwg, dangoswyd fideo i'r plant a'r bobl ifanc yn cyflwyno'r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau am eu taith i'r ysgol, gan gynnwys beth roedden nhw'n ei fwynhau am deithio i'r ysgol ac a oedden nhw'n teimlo'n ddiogel wrth deithio i'r ysgol. Fe wnaethon ni awgrymu yn ein hamlinelliad o'r sesiwn y dylai'r plant a'r bobl ifanc gael rhai munudau i drafod eu barn gyda'i gilydd ar ôl gwylio'r fideo, cyn ateb yr arolwg.

Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau'r arolwg; gallai plant a phobl ifanc wneud hynny'n annibynnol, neu gallai athro gwblhau'r arolwg ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau er mwyn rhoi trosolwg o'r drafodaeth.

Atebodd cyfanswm o 891 o blant a phobl ifanc unigol, o rai 6 oed a than hynny hyd at rai 17 oed, yr arolwg fel unigolion. Bu 1,699 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o'u barn. Fe gawson ni ymatebion gan 12 ardal awdurdod lleol.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd, ar sail themâu oedd wedi dod i'r amlwg o ymarferiadau ymgysylltu blaenorol â phlant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

## Cwestiynau i blant a phobl ifanc

## Cwestiynau ymateb caeedig

**Sut wyt ti'n cyrraedd yr ysgol?**
Cerdded (386) – 42%
Car (365) – 40%
Mynd ar Sgwter neu Feic (62) – 7%
Cyrraedd yr ysgol mewn ffordd wahanol (43) – 5%
Bws ysgol (37) – 4%
Bws cyhoeddus (14) – 2%
Tacsi (7) – 1%
Trên (-)

**Wyt ti'n teimlo'n ddiogel wrth deithio i'r ysgol?**
Ydw (368) – 83%
Weithiau (67) – 15%
Nac ydw (11) – 3%

**Pa mor hawdd yw dy daith i'r ysgol?**
Hawdd iawn (195) – 45%
Eitha hawdd (145) - 33%
Ddim yn hawdd nac yn anodd – yn y canol (83) – 19%
Eitha anodd (12) – 3%
Anodd iawn (3) – 1%

**Wyt ti'n cerdded i'r safle bws?**
Ydw (22) – 60%
Nac ydw (15) 41%

**Wyt ti'n teimlo'n ddiogel wrth gerdded i safle dy fws ysgol?**
Ydw (16) – 76%
Weithiau (3) – 14%
Nac ydw (2) – 10%

**Pa mor hawdd yw cerdded i safle dy fws ysgol?**
Hawdd iawn (16) – 73%
Eitha hawdd (4) – 18%
Ddim yn hawdd nac yn anodd – yn y canol (2) – 9%
Eitha anodd (-)
Anodd iawn (-)

**Wyt ti'n talu i ddefnyddio'r bws, trên neu dacsi?**
Ydw (12) – 57%
Dwy ddim yn gwybod (5) – 24%
Nac ydw (4) – 19%

## Cwestiynau testun rhydd

Yma rydyn ni wedi cynnwys y tri ateb ar y brig a gawson ni gan blant wrth ymateb i bob cwestiwn testun rhydd.

**Wyt ti'n gallu dweud wrthyn ni pam dwyt ti ddim bob amser yn teimlo'n ddiogel wrth deithio i'r ysgol?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- aelodau eraill o'r cyhoedd/dieithriaid/ymddygiad annymunol (ddim yn teimlo'n ddiogel)
- Herwgipwyr/rhywun yn mynd â chi
- teimlo bod pobl yn dilyn fi/yn edrych arna i/mod i'n cael fy nilyn

**Pam mae dy daith i'r ysgol yn anodd?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- corslyd/mwdlyd/pyllau
- baw cŵn
- tŷ ymhell i ffwrdd/byw'n bell (cerdded)

**Wyt ti'n gallu dweud wrthyn ni pam dwyt ti ddim bob amser yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded at safle dy fws ysgol?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- pobl yn gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus
- bws yn hwyr
- bygythiadau gan ddisgyblion eraill
- croesi'r ffordd

**Beth wyt ti'n hoffi am dy daith i'r ysgol?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- Siarad â ffrindiau a bod gyda nhw
- Diflas/dim byd/ddim yn gwybod
- Edrych allan o'r ffenestr/golygfeydd hardd/byd natur (o'r car)

**Oes unrhyw beth yn golygu bod cyrraedd yr ysgol yn anodd i ti?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- Nac oes/ddim wir
- Traffig
- Tywydd – mynd yn wlyb/oer

## Cwestiynau i athrawon/weithwyr ieuenctid

**O’r plant sy’n cerdded, yn beicio neu’n mynd ar sgwter i’r ysgol, faint sy’n teimlo’n ddiogel ar eu taith?**

Y rhan fwyaf (24) – 53%
Pawb (10) – 22%
Rhai (8) – 18%
Dim llawer (2) – 4%
Dim (1) – 2%

**O’r plant sy’n cerdded, yn beicio neu’n mynd ar sgwter i’r ysgol, faint sy’n teimlo bod eu taith yn anodd?**

Rhai (14) – 31%
Dim llawer (13) – 29%
Dim (12) – 27%
Y rhan fwyaf (5) – 11%
Pawb (1) – 2%

**O’r plant sy’n dal y bws ysgol, faint sy’n teimlo’n ddiogel ar eu taith o’u cartref i safle eu bws?**

Pawb (15) - 40%
Dim (9) - 24%
Y rhan fwyaf (9) - 24%
Rhai (3) - 8%
Dim llawer (2) - 5%

**O’r plant sy’n dal y bws ysgol, faint sy’n teimlo bod eu taith o’u cartref i safle eu bws yn anodd?**

Dim (23) - 59%
Dim llawer (7) - 18%
Rhai (4) - 10%

Pawb (3) - 8%
Y rhan fwyaf (2) - 5%

**O’r plant sy’n dal trafnidiaeth gyhoeddus neu sy’n mynd mewn tacsi, faint sy’n gorfod talu i wneud hynny?**
Dim (27) - 66%
Pawb (5) - 12%
Dim llawer - (4) - 10%
Rhai - (4) - 10%
Y rhan fwyaf (1) - 2%

## **Casgliad**

- Teithiau ysgol sy’n fframio’r diwrnod ysgol, ac mae’n rhaid i ddiogelwch a hygyrchedd y daith i’r ysgol fod yn ystyriaeth allweddol o ran hawl plant i gael addysg.

- Er bod y rhan fwyaf o’r plant a’r bobl ifanc a ymatebodd i’r arolwg yn teimlo bod eu taith i’r ysgol yn ddiogel ac yn hawdd, amlygodd yr ymatebion testun agored rai pryderon diogelwch ynghylch cael eu dilyn neu bryderon ynghylch ymddygiad pobl eraill.

- Amlygodd rhai sylwadau fod traffig, methu croesi ffyrdd a cheir yn cyfrannu at wneud y daith i’r ysgol yn anodd.

- Rydyn ni wedi rhannu barn plant o’r arolwg hwn gyda Llywodraeth Cymru a chyda chynghorau ar draws Cymru.

## Y Cyd-destun Ehangach

- Ar sail gwaith ymgysylltu ehangach ac achosion sy'n dod i sylw ein gwasanaeth Cyngor a Chymorth ar Hawliau Plant rydyn ni'n ymwybodol nad yw pob plentyn yn cael taith ddiogel, hygyrch i'r ysgol. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Teithio gan ddysgwyr yng Nghymru: dadansoddi a gwerthuso: adroddiad argymhellion Rhagfyr 2023". Mewn ymateb, mae'r Comisiynydd wedi mynegi ei siom yn yr adolygiad terfynol yma. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i drafod pryderon ynghylch yr adolygiad hwn ymhellach gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, ac mae'n ystyried pob opsiwn sydd ar gael i'w swyddfa o ran archwilio'r penderfyniadau a arweiniodd at yr adolygiad hwn.
- Bydd Llywodraeth Cymru, ynghyd ag Awdurdodau Lleol, yn ystyried safbwyntiau ar y canllawiau 20mya fel rhan o raglen wrando genedlaethol. Dylai hyn gynnwys clywed barn plant a phobl ifanc.
- Byddwn ni hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gwrdd â phlant a phobl ifanc i drafod testun 20mya yn fanylach. Gan fod diogelwch ffyrdd yn effeithio'n anghymesur ar blant ac oedolion agored i niwed, rydyn ni'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu hynny yn eu hymgysylltu a'u hystyriaethau wrth ddiwygio'r canllawiau.